

# YMDDEOLIAD SY'N DDA I DDIM?

## GWEITHREDU DROS USS: URDDAS WRTH WEITHIO, URDDAS AR ÔL YMDDEOL

- gweithiwrch gyda ni i atal y toriadau i USS ac osgoi newidiadau i fuddiannau a chynnydd yng nghyfraniadau aelodau yn y dyfodol
- galwch ar USS i gyflwyno prisiad newydd o'r cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth.

**PLEIDLEISIWCH IE** dros gamau gweithredu nad ydynt yn cynnwys streic.

**PLEIDLEISIWCH IE** dros streicio.



# GWEITHREDU DROS USS: URDDAS WRTH WEITHIO, URDDAS AR ÔL YMDDEOL

Mae'r pandemig wedi newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio, ond mae hefyd wedi dangos y graddau y mae prifysgolion yn dibynnu ar ein hymroddiad i fyfyrwyr. Er gwaethaf yr aberthau rydym wedi'u gwneud yn ystod argyfwng Covid-19, rydym unwaith eto yn wynebu toriadau mawr i'n pensiynau.

## Tra roeddem ni'n gweithio, roedden nhw'n dinistrio

Tra rydym ni wedi wynebu llwythi gwaith cynyddol, cyflog digyfnewid a risg barhaus Covid-19, mae cyflogwyr wedi bod wrthi'n cynllunio toriadau i'n pensiwn sy'n bygwth dichonoldeb USS, ac mae mwy a mwy o staff yn debygol o adael y cynllun.

O dan gynigion UUK:

- bydd cyflogwyr yn talu 21.1% ac aelodau'n talu 9.6% (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd)\*
- bydd y cronriad yn lleihau o 1/75 i 1/85\*
- bydd y trothwy cyflog uchaf ar gyfer cronni buddiannau diffiniedig yn cael ei ostwng i £40,000
- dim ond hyd at 2.5% y caiff buddiannau eu diogelu yn erbyn chwyddiant (ar hyn o bryd caiff buddiannau eu diogelu'n llawn hyd at 5% a chaiff hanner ohonynt eu

diogelu yn erbyn chwyddiant rhwng 5% a 15%)

- ni fydd unrhyw opsiwn hyblyg i aelodau sy'n awyddus i ymuno ac ennill pensiwn gwarantedig.

\* gallai fod cyfraniad ychwanegol o 0.5% i'w rannu 21.4% (cyflogwr) a 9.8% (aelodau USS) o dan y cynigion, oni fydd USS yn talu amdano.

## Ydych chi'n credu mewn bywyd ar ôl gwaith?

Nid rhodd gan ein cyflogwyr yw pensiynau: rydym wedi ennill pob ceiniog ac rydym yn haeddu urddas ar ôl ymddeol. Allwn ni ddim cario ymlaen fel hyn. Rydym wedi ceisio negodi ac awgrymu atebion i ddod â'r cylch niweidiol hwn o anghydfodau i ben, ond unwaith eto mae angen i ni frwydro dros bensiwn boddhaol ac urddas ar ôl ymddeol.

## Pa bris nawr am ychydig iawn o urddas?

Nid yw'r un gweithiwr addysg eisiau mynd ar streic nac aflonyddu ar addysg ein myfyrwyr. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn ddigon anodd i fyfyrwyr a staff, ond mae siawns o hyd i gyflogwyr osgoi blwyddyn niweidiol arall o aflonyddwch. Y ffordd orau o ddarbwylo cyflogwyr i roi'r gorau i'r cynigion hyn yw:

**PLEIDLEISIO IE  
dros gamau gweithredu nad ydynt  
yn cynnwys streic.**

**PLEIDLEISIO IE  
dros streicio.**